

RHAGLEN GYMORTH MATHEMATEG BELLACH CYMRU



CYLCHLYTHYR

Gwanwyn 2016

Rhifyn 5

Dathlu Merched mewn Mathemateg

Cynhadledd Blwyddyn 12

Prifysgolion Caerdydd a Bangor—Ionawr 2016

Prifysgol Abertawe—Mawrth 2016



Cynhaliodd Rhaglen Gymorth Mathemateg Bellach Cymru dair

cynhadledd cyffrous yng ngwanwyn 2016 o dan y teitl 'Dathlu Merched mewn Mathemateg'. Dathlodd y digwyddiadau ferched sydd wedi gwneud cyfraniadau sylweddol i Fathemateg, Gwyddoniaeth a Pheirianeg. Dangosodd y cynadleddau enghreifftiau cyfoes a hanesyddol o fenywod sydd wedi gwneud cynnydd mawr yn yr hyn a welir weithiau fel maes wedi ei ddominyddu gan ddynion. Roedd digwyddiad Prifysgol Abertawe yn rhan o Wythnos Wyddoniaeth Prydain. Roedd FMSP Cymru yn falch iawn o groesawu'r Athro Julie Williams CBE, Prif Gynghorydd Gwyddonol Cymru, yng Nghynhadledd Abertawe, a amlygodd yn ei sgwrs y cyfleoedd cyffrous sydd i fyfyrwyr â chefnid gwyddonol da. Dywedodd Julie Williams "Gall merched sy'n cymryd mathemateg neu wyddoniaeth lefel A gynyddu eu cyflogau dilynol gan un rhan o dair". Eleni, yn ogystal â chynnydd yn y niferoedd cyffredinol yn mynychu, gwelodd FMSP Cymru gynydd o 167% yn y nifer o gyfranogwyr benywaidd. Yn nghynhadledd Caerdydd roedd 100% o'r




Support Programme Wales
Mathemateg Bellach
Bellach.org.uk



mynychwyr yn ferched. Cafodd yr holl weithdai eu cyflwyno gan gyflwynwyr benywaidd ac roedd FMSP yn falch iawn o groesawu 8 canolfan newydd i'r digwyddiadau. Dywedodd 97% o'r rhai a fynychodd Gynhadledd Bangor bod y sesiynau wedi eu hannog i astudio Mathemateg Bellach AS neu Lefel A. Cafodd y digwyddiadau dderbyniad da gan y myfyrwyr, "Cyfle gwych i ddysgu mwy am bwysigrwydd mathemateg, a sut mae merched yn ddyllanwadol iawn mewn Mathemateg", "Fe wnes i fwynhau yn fawr iawn. Mae hyn wedi rhoi ysbrydoliaeth i mi am fenywod mewn gwyddoniaeth".

Agorodd yr Athro Hilary Lappin-Scott, Uwch Ddirprwy-Is-Ganghellor Prifysgol Abertawe Gynhadledd Abertawe a'r Athro Karen Holford, Dirprwy Is-Ganghellor, Coleg y Gwyddorau Ffisegol a Pheirianeg Prifysgol Caerdydd agorodd Cynhadledd Caerdydd "Un diwrnod efallai bydd y myfyrwyr hyn yn ychwanegu at gyfraniadau eithriadol mathemategwyr megis Hypatia, Agnesi a Lovelace". <http://www.furthermaths.org.uk/wales-news#cymraeg>



Hyfforddiant

Mae'r hyfforddiant wedi mynd yn dda a chanlyniadau profion cadarnhaol. Annogir y myfyrwyr i ddefnyddio eu manylion mewngofnodi i wneud defnydd llawn o'r holl adnoddau sydd ar gael. Mae ceisiadau hyfforddiant ar gyfer blwyddyn nesaf yn cael eu derbyn yn barod. A fydddech gystal â edrych ar eich Myfyrwyr Mathemateg Bellach AS a lefel A potensial, pa ddarpariaethau sydd ar gael ar hyn o bryd yn eich ysgol, ac os oes unrhyw gefnogaeth neu gymorth sydd ei angen arnoch. Ar gyfer ymholiadau hyfforddiant cysylltwch â Beth Eakins b.eakins@swansea.ac.uk

Datblygiad Proffesiynol Parhaus

Addysgu Pur Bellach 1 yn Hyderus

Cymerodd 7 o athrawon o bob rhan o Ogledd Cymru ran yn y cwrs oedd yn rhedeg o Hydref 2015-Mawrth 2016. Roedd 8 o 9 o'r athrawon yn siarad Cymraeg a cynhaliwyd y cwrs yn ddwyieithog. Roedd yr adrodd yn ardderchog gyda 100% o'r cyfranogwyr yn fodlon iawn gyda "Cyflwyno sesiynau", "Deunyddiau / adnoddau" a "Safon Addysgu". Bydd effaith am-lwg i'r ysgolion "Mae mathemateg pellach wedi ei gyflwyno eleni ar lefel UG a bydd yn symud ymlaen i Lefel A y flwyddyn nesaf. Mae wedi cael ei hamserlennu yn iawn am y tro



cyntaf. "

Addysgu Pynciau Uwch mewn Mathemateg Bur Bellach

Mynychodd 15 o athrawon y sesiynau wyneb-yn-wyneb a derbyniodd 2 arall ddeunyddiau a chymorth ar-lein. Mae'r cwrs yn cwmpasu pynciau o faes llafur FP2 a FP3. Roedd y cyfranogwyr yn hapus efo'r cwrs gyda 100% yn fodlon iawn neu'n fodlon gyda chyflwyno'r sesiynau, adnoddau ac addysgu. "Mae gen i ddealltwriaeth well sy'n golygu bydd fy addysgu i yn well". Yn dilyn y cwrs esboniodd pum ysgol y byddai'n effeithio'n uniongyrchol ar ddarpariaeth Mathemateg Bellach yn eu hysgol.

Gweithdai Undydd

Syniadau Mawr mewn Mathemateg Safon Uwch—cynhaliwyd yng Nghogledd Cymru—Cyfranogodd 7 athro.

Mathemateg Ychwanegol—cynhaliwyd yn Ne Cymru—mynychodd 24 athro o 8 sir

Astudiaeth Achos

—Trosglwyddo i Brifysgol

Anna Clancy

Ysgol Maesydderwen

Prifysgol Caerdydd—BSc Mathemateg "Yn y flwyddyn gyntaf yn y Brifysgol roedd sawl un o'r modiwlau yn cynnwys llawer o Fathemateg Bellach, felly roedd yn gwneud y modiwlau hynny llawer haws i mi nag i'r pobl nad oedd wedi gwneud Mathemateg Bellach".

Newyddion o'r We

I ddarllen rhagor o astudiaethau achos a gweld digwyddiadau sydd ar y gweill ewch i : www.furthermaths.org.uk/Wales#cymraeg

DIGWYDDIADAU AR Y GWEILL

Am ragor o wybodaeth am unrhyw un o'r digwyddiadau
ewch i <http://www.furthermaths.org.uk/wales> neu
cysylltwch â thîm FMSP
c.e.musselwhite@swansea.ac.uk 01792 606609

Mathemateg yw eich Dyfodol

Cynhadledd Undydd i fyfyrwyr mathemateg Blwyddyn 10

29 Mehefin—Prifysgol Abertawe

5 Gorffennaf—Coleg Sir Benfro

7 Gorffennaf – Prifysgol De Cymru

9:15am i 14.15pm Bydd lleoedd yn cael eu dyrannu ar sail y cyntaf i'r felin. I wneud cais anfonwch e-bost at:

C.e.musselwhite@swansea.ac.uk ewch i: http://www.furthermaths.org.uk/Wales_enrichment




Ysgol Haf Mathemateg Uwch

Gweithdy Undydd i fyfyrwyr blwyddyn 11 o ysgolion a ariennir gan y wladwriaeth

7 Gorffennaf-Prifysgol Bangor, 10.00—2.30pm

13 Gorffennaf— Prifysgol Abertawe - 9.30 – 2.30pm



Dyddiau Adolygu **Dyddiau Sadwrn—Mai—Mehefin**

Mathemateg Safon Uwch, Pellach ac Ychwanegol i'w cynnal yn Abertawe, Caerdydd, Bangor ac Aberystwyth

Modiwl	Abertawe	Caerdydd	Bangor	Aberystwyth
M2	14 Mai 2016	X	28 Mai 2016	X
M3	X	11 Mehefin 2016	X	X
S1	X	14 Mai 2016	X	X
S2	X	21 Mai 2016	4 Mehefin 2016	X
FP1	11 Mehefin 2016	11 Mehefin 2016	7 Mai 2016	18 Mehefin 2016
FP2	18 Mehefin 2016	18 Mehefin 2016	14 Mai 2016	X
FP3	25 Mehefin 2016	X	X	X
Maths Ychwanegol	11 Mehefin 2016	18 Mehefin 2016	28 Mai 2016	18 Mehefin 2016

Fideos Adolygu i'w cael ar FP1, FP2, FP3, S1, S2, S3, M1, M2, M3 ewch i

<http://www.furthermaths.org.uk/wjec-revision>

Datblygiad Proffesiynol Parhaus i Athrawon

Cwrs ar-lein—Ymestyn Myfyrwyr Mathemateg Safon Uwch Galluog yn Bellach: paratoi ar gyfer MAT/AEA/STEP

Mae'r cwrs yn cynnwys tair sesiwn ar-lein

11 Mai (5-6.30pm), 18 Mai (5-6.30pm), 25 Mai (5-6.30pm)

Cwrs llawn Mathemateg Pellach -6 o sesiynau wyneb-yn-wyneb i'w gynnal dros gyfnod o 6 mis

FP2 and FP3 Hydref 2016 —Mawrth 2017, Prifysgol Bangor

FP1—De Cymru (Prifysgolion Abertawe a Chaerdydd) —Hydref 2016—Mawrth 2017

Mae lleoedd yn gyfyngedig

I archebu lle ar gyfer unrhyw gwr Datblygiad Proffesiynol Parhaus, e-bostiwch c.e.musselwhite@swansea.ac.uk

